Mae'r ddogfen hon ar gael yn Gymraeg yn ogystal â Saesneg.

This document is available in Welsh as well as English.

Hydref – Rhagfyr 2024

## Diweddariad Chwarterol Ymweliadau Annibynnol â Dalfeydd:

## Hydref - Rhagfyr 2024

| Cyfanswm nifer y carcharorion sy’n oedolion yn y ddalfa | Cyfanswm nifer y carcharorion ifainc yn y ddalfa | Cyfanswm nifer y carcharorion yn y ddalfa | Nifer yr ymweliadau gan yr Ymwelwyr Annibynnol â Dalfeydd | Cyfanswm nifer y carcharorion yn y ddalfa adeg ymweliadau Ymwelwyr Annibynnol â Dalfeydd | Cyfanswm nifer y carcharorion ddim ar gael | Nifer y carcharorion a arsylwyd | Cyfanswm nifer y carcharorion yr ymwelwyd â nhw |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| 1549 | 97 | 1646 | 32 | 83 | 18 | 27 | 38 |


### Ymwelwyr Annibynnol â Dalfeydd Gweithredol: 16


- Sir Benfro: 5
- Powys: 4
- Ceredigion: 1
- Sir Gaerfyrddin: 6

*Ar hyn o bryd, mae dau ymgeisydd newydd wrthi’n cael eu fetio. Yn ogystal, mae dau gwirfoddolwr yn cymryd seibiant dros dro o’r cynllun.*


Hydref – Rhagfyr 2024


**Amseroedd Ymweliadau:**




**Diweddariad ar y Cynllun:**



**Materion Staffio**

- Oherwydd y pryderon a fynegwyd yn ystod y chwarter diwethaf am faterion staffio, codwyd y materion hyn o fewn y Bwrdd Plismona yng nghyfarfod mis Hydref. Derbyniwyd sicrwydd gan y Prif Gwnstabl bod cynlluniau recriwtio ar waith a bod mesurau cadernid wrthi'n cael eu gweithredu er mwyn mynd i'r afael â'r mater.
- Mae ymwelwyr annibynnol â dalfeydd ond wedi adrodd am ddau gyfarfod yn ystod y chwarter diwethaf lle yr ystyriwyd staffio'n broblem.

**Gweithiwr Proffesiynol Gofal Iechyd**

- Mae cytundeb newydd yn ei le ar gyfer darparwr y gweithiwr proffesiynol gofal iechyd i HDP. Bydd hyn nawr yn gweld nifer penodol o weithwyr proffesiynol gofal iechyd wedi'u gwreiddio ar draws pob dalfa yn HDP.
- Hyd yn hyn, mae ymwelwyr annibynnol â dalfeydd wedi tynnu sylw at bryderon mewn perthynas â'r canlynol:
  - Gweithwyr Proffesiynol Gofal Iechyd ddim yn cloi'r ystafell feddygol pan nad ydynt yno. Hefyd, un tro, mynegodd ymwelydd annibynnol â dalfeydd bryderon am y ffordd ymosodol oddefol yr ymatebodd y gweithiwr proffesiynol gofal iechyd i'w gwestiynau.
  - Mynegwyd pryder mewn perthynas â diffyg gweithwyr proffesiynol gofal iechyd dros nos yn nalfeydd Aberhonddu a Hwlffordd.

**Mynediad i'r Anabl**

- Yn ystod y chwarter diwethaf, bu tri digwyddiad ar draws tair dalfa wahanol yn holi am hygyrchedd ac addasiadau rhesymol ar gyfer carcharorion anabl. Mae'r rhain yn cynnwys y canlynol:
  - Pa un ai a yw matresi tewch yn ddatrysiad digonol ar gyfer meinciau is yn y celloedd yn nalfa Dafen. Mae meinciau is wedi'u gosod er mwyn atal niwed posibl i garcharorion a allai syrthio. Ar gyfer y rhai sydd â phroblemau symudedd, holodd yr ymwelwyr annibynnol â dalfeydd pa un ai a oedd hyn yn ddatrysiad digonol o ystyried natur ansefydlog y matresi hyn. Mae SCHTh wedi cynnal ymholiadau

gyda'r Gymdeithas Ymwelwyr Annibynnol â Dalfeydd a'r Heddlu, a darganfod mai penderfyniad heddlu lleol yw hwn. Mae ymwelwyr annibynnol â dalfeydd yn monitro er mwyn sefydlu cyfrifon personol gan y carcharorion hynny sy'n dibynnu ar fatresi tewach.
- Mynegwyd pryderon o ran sut y byddai carcharorion anabl neu'r rhai sydd â phroblemau symudedd yn cael mynediad i gyfleusterau toiled Hwlffordd. Mae SCHTh dal yn disgwyl ymateb i'r ymholiad hwn.
- Siaradwyd â charcharor a oedd yn fyddar yn Aberhonddu. Cyfathrebodd ymwelwyr annibynnol â dalfeydd ag ef drwy ysgrifennu a chyfnewid negeseuon. Mae ymholiadau nawr yn cael eu codi mewn perthynas â hwyluso gwersi Iaith Arwyddion Prydain ar gyfer staff y ddalfa a sefydlu pa un ai a yw dolen sain yn hygyrch o fewn y ddalfa.

- Mae canlyniad y cyfarfodydd hyn wedi gwthio ymwelwyr annibynnol â dalfeydd i fonitro'r adnoddau sydd ar gael mewn dalfeydd ar gyfer mynediad i'r anabl, gan gynnwys:
  - Mynediad i gadeiriau olwyn
  - Cyflenwad o fatresi trwchus
  - Llinellau gweld mewn nifer bychan o gelloedd i helpu'r carcharorion hynny sydd â nam ar eu golwg
  - Dolenni clyw, er mwyn helpu'r rhai sydd ag anawsterau clyw
  - Toiledau comunol wedi'u haddasu
  - Pa un ai a yw'r Heddlu'n hyfforddi staff y ddalfa i ddysgu Iaith Arwyddion Prydain ai peidio.

**Sylwadau cadarnhaol**

- Nododd ymwelwyr annibynnol â dalfeydd nifer o sylwadau cadarnhaol dros y chwarter diwethaf, gan gynnwys:
  - Yn Nafen, roedd hi'n dda gan ymwelwyr annibynnol â dalfeydd nodi bod carcharor a oedd yn Gristion wedi derbyn Beibl gan staff y ddalfa. Fe wnaeth yr un carcharor ganmol y ffordd y cafodd ei drin gan staff y ddalfa'n fawr iawn hefyd.
  - Nododd adroddiad o Aberteifi bod y system gweithiwr proffesiynol gofal iechyd newydd yn ymddangos fel pe bai'n gweithio'n dda yn ystod y cyfnod cynnar hwn.

- Adroddwyd bod staff dalfeydd yn gymwynasgar iawn tuag at ymwelwyr annibynnol â dalfeydd newydd, gan roi teithiau iddynt ac ateb unrhyw gwestiynau a oedd ganddynt yn y Drenewydd ac Aberhonddu.
- Dywedodd dau garcharor gwrywaidd wrth ymwelwyr annibynnol â dalfeydd eu bod nhw wedi cael eu trin yn dda yn Hwlffordd.
- Mae'r holl fynedfeydd priodol i'r anabl yn bresennol yn y Drenewydd, Dafen ac Aberhonddu. Mae ymholiadau'n cael eu cynnal yn Aberystwyth a Hwlffordd er mwyn sefydlu hyn.

**Materion 'Eraill' a Nodwyd**

- **Golchdy** – Cofnodwyd dau ddigwyddiad yn y Drenewydd lle'r oedd cyflenwadau tywelion yn isel, ac ar achlysur arall, adroddwyd nad oedd unrhyw dywelion na blancedi wedi'u dychwelyd. Mae'r arolygydd lleol yn ymwybodol o'r broblem ac wedi'n cynghori ei fod yn monitro'r sefyllfa ac y bydd yn mynd i'r afael â'r mater gyda'r cyflenwr os bydd problemau'n parhau.
- **Cyflenwadau Bwyd** - Yn y Drenewydd, roedd cyflenwadau bwyd yn cael eu dosbarthu i Aberhonddu, ac roedd yn rhaid i staff y ddalfa yrru yno i gasglu bwyd, sy'n daith o tua dwy awr a hanner un ffordd. Mae hyn wedi arwain at gyflenwadau bwyd isel ar adegau. Mae'r Arolygydd lleol wedi sicrhau bod y mater hwn wedi'i ddatrys, gyda chyflenwadau bwyd nawr yn cael eu dosbarthu'n uniongyrchol i'r Drenewydd.
- **Hylendid** – Awgrymodd Adroddiad Ymchwiliad y Fonesig Vera Baird ddarpariaeth mislif sylfaenol ar gyfer menywod yn y ddalfa. Nododd ymwelwyr annibynnol â dalfeydd nad oes gan y ddarpariaeth yn Hwlffordd unrhyw gynnyrch glanhau dwylo na bagiau ar wahân i gael gwared ar eitemau wedi'u defnyddio. Awgrymodd ymwelwyr annibynnol â dalfeydd hefyd bod rhai eitemau a phecynnau penodol yn cael eu gadael ar agor, a allai fod yn aflan.
- **Poster ar gyfer carcharorion** – Tynnodd staff sylw ymwelwyr annibynnol â dalfeydd yn Aberteifi y byddent yn gwerthfawrogi poster sy'n dweud wrth garcharorion na ddioddefir cam-drin na thrais yn eu herbyn.

**Cyfarfod y Panel Ymwelwyr Annibynnol â Dalfeydd**

Hydref – Rhagfyr 2024

- Cynhaliwyd Panel Ymwelwyr Annibynnol â Dalfeydd wyneb yn wyneb ar gyfer ymwelwyr annibynnol â dalfeydd a staff dalfeydd ar 30 Hydref 2024 ym Mhencadlys Heddlu Dyfed-Powys. Yn y cyfarfod:

  - Rhoddodd y dalfeydd ddiweddariad am y cytundeb gweithiwr proffesiynol gofal iechyd newydd, rhywfaint o fewnwelediad i'r materion staffio a brofwyd yn ystod chwarter 2, a thrafodaeth ynghylch gweithredu Gwasanaethau Cyffuriau ac Alcohol Dyfed, sy'n cael eu treialu yn nalfa Dafen.

  - Derbyniodd Rheolwyr Cynllun SCHTh adborth arbennig ar y ffordd yr oedd y cynllun yn cael ei redeg drwy arolwg yr oedd yr ymwelwyr annibynnol â dalfeydd wedi cwblhau ar eu rhan. Mae rhai agweddau cadarnhaol sydd wedi dod o ganlyniad i'r arolwg yn cynnwys newidiadau i rolau a chyfrifoldebau presennol Cadeirydd yr ymwelwyr annibynnol â dalfeydd, fersiwn ddiwygiedig o ffurflenni adrodd presennol ymwelwyr annibynnol â dalfeydd, a chynnwys mwy o ymwelwyr annibynnol â dalfeydd ar y Panel Craffu Annibynnol ar Ddalfeydd.



**Llysgenhadon Ieuenctid yn Ymweld â Dafen**

• Gyda chymorth ymwelwyr annibynnol â dalfeydd, staff dalfeydd lleol, rheolwyr y cynllun ymwelwyr annibynnol â dalfeydd a Llysgenhadon Ieuenctid, rhoddwyd taith o ddalfa Dafen i'r Llysgenhadon Ieuenctid.

• Yn gyffredinol, roedd adborth y llysgenhadon ieuenctid yn gadarnhaol iawn. Nodwyd pa mor lân oedd y ddalfa, a pha mor barod oedd staff y ddalfa i ateb eu cwestiynau a hwyluso'r daith.

• Ceir rhagor o fanylion a lluniau ar ein tudalen Instagram.

**ecriwtio**

- Mae pedwar aelod newydd wedi'u cynnwys yn ein cynllun ymwelwyr annibynnol â dalfeydd. Ar hyn o bryd, maen nhw'n cefnogi ardaloedd Sir Gaerfyrddin, Sir Benfro a De Powys.
- Mae SCHTh newydd dderbyn tri chais arall a fydd yn cefnogi ardaloedd Ceredigion a Gogledd Powys.

Hydref – Rhagfyr 2024

**Ymateb yr Heddlu:**

Mewn perthynas â'r arsylwadau uchod, dyma farn yr Arolygydd Andy Rogers, sy'n sylwi ar ran Heddlu Dyfed-Powys mewn perthynas â'i fyfyrdod dros y chwarter diwethaf:

> ***"Mae'n dda gennyf weld bod y berthynas weithio'n parhau rhwng ymwelwyr annibynnol â dalfeydd a staff dalfeydd, ac mae'n gadarnhaol iawn gweld na chofnodwyd unrhyw ymweliadau yn ystod y chwarter hwn lle bu oedi o ran ymwelwyr annibynnol â dalfeydd yn cael mynediad i'r dalfeydd. Mae mynediad i'r dalfeydd yn eitem safonol ar yr agenda yn ystod cyfarfodydd perfformiad misol, ac mae'n dda gweld bod adborth wedi'i groesawu a bod perfformiad wedi gwella yn y maes hwn. Bydd hyn yn parhau i gael ei fonitro.***
>
> *Codwyd materion staffio yn ystod y chwarter diwethaf chwe gwaith, ond maent ond wedi'u codi ddwywaith yn ystod y chwarter hwn. Mae'n gadarnhaol bod sicrwydd wedi'i dderbyn gan y Prif Gwnstabl bod cynlluniau recriwtio ar waith, ac mae hyn yn ychwanegol i'r mesurau cadernid sy'n cael eu gweithredu er mwyn mynd i'r afael â'r mater. O safbwynt dalfeydd, mae cyrsiau cychwynnol pellach wedi'u trefnu ar gyfer swyddogion dalfeydd, gan y bydd hyn yn cynyddu nifer y swyddogion sydd wedi derbyn hyfforddiant dalfeydd er mwyn darparu cefnogaeth.*
>
> *Megis dechrau mae'r cytundeb meddygol newydd, ond mae hyn wedi cyflwyno cynnydd o ran darpariaeth gweithiwr proffesiynol gofal iechyd ledled yr heddlu, a gwasanaeth mwy proffesiynol yn gyffredinol. Nodwyd y pryder mewn perthynas â diffyg darpariaeth gweithiwr proffesiynol gofal iechyd dros nos yn Aberhonddu. Mae dalfa Aberhonddu'n gweithredu system "ar alwad", gyda darpariaeth gweithiwr proffesiynol gofal iechyd yn cael ei ddarparu o ddalfeydd eraill, a gwelwyd gwelliant o dan y cytundeb meddygol newydd. Bydd y trawsnewid hwn yn parhau i gael ei fonitro. Nodwyd pryder mewn perthynas **â** gweithwyr proffesiynol gofal iechyd ddim yn cloi ystafelloedd meddygol pan maen nhw'n wag. Bydd y mater hwn yn cael ei godi gydag Arolygwyr Dalfeydd er mwyn dirymu unrhyw risg ac atal hyn rhag digwydd.*
>
> *Nodir argymhellion mewn perthynas â mynediad i'r anabl mewn dalfeydd, gan gynnwys cyflenwi matresi tewach. Darperir y rhain ym mhob dalfa yn dilyn argymhelliad gan ymwelwyr annibynnol â dalfeydd yn gynharach yn 2024. Llinellau gweld ar gyfer carcharorion â nam ar eu golwg (rwy'n ymwybodol bod llinellau gweld eisoes wedi'u gosod ym mhob dalfa), dolenni clyw i gynorthwyo'r rhai sydd ag anawsterau clyw (rwy'n ymwybodol bod y rhain eisoes wedi'u gosod ym mhob dalfa). Cynhelir ymweliadau rheolaidd gan Wasanaethau Dalfeydd ac mae'r meysydd hyn yn ffurfio rhan*

*o'n rhestr wirio. Mae hyfforddiant Iaith Arwyddion Prydain sylfaenol ar gyfer staff dalfeydd yn rhywbeth y gallwn ei gyflwyno fel awgrym. Nodir fod yr holl fynedfeydd priodol ar gyfer pobl anabl yn bresennol yn y Drenewydd, Aberhonddu a Dafen, a bod ymholiadau dal yn cael eu cynnal yn Aberystwyth a Hwlffordd. Bydd gwasanaethau dalfa'n adolygu'r materion a nodwyd yn Hwlffordd ac yn adrodd nôl.*

*Mae'n dda gweld nifer y sylwadau cadarnhaol a gofnodwyd yn ystod y chwarter hwn mewn perthynas â'r cytundeb meddygol newydd, y ffordd y mae ymwelwyr annibynnol â dalfeydd yn cael eu trin gan staff dalfeydd, a'r ffordd mae carcharorion yn cael eu trin.*

*Ymddengys bod ymgysylltiad rhwng Staff y Ddalfa a Llysgenhadon Ieuenctid yn ystod eu hymweliad â Dafen wedi cael croeso mawr, gydag adborth cadarnhaol iawn gan y Llysgenhadon Ieuenctid. Y mae bob amser yn braf gweld digwyddiadau ymgysylltu fel hyn, a chroesawn fwy gyda'n dalfeydd eraill.*

*Hoffwn ddiolch i'r ymwelwyr annibynnol â dalfeydd am eu hadborth a'u cefnogaeth barhaus o'n dalfeydd, sy'n ein caniatáu i aros yn atebol a thryloyw yn ein triniaeth o garcharorion."*